# LOREN HENRY

# CYMUNED

## ETIFEDDIAETH

Mae etifeddiaeth Garibïaidd Loren Henry yn gysylltiedig ag Antigua, St Kitts a Jamaica.

Mae teulu, teithio a threulio amser wrth ymyl y môr yn siapio’r ffordd y mae hi’n gweld y byd.

Mae natur, diwylliant, cerddoriaeth a phrofiadau byd-eang yn dal i ddylanwadu ar ei ffordd o fyw, gwaith a sut mae hi’n arwain.

## CYMRU YW...

CYMUNED BALCHDER POSIBILIADAU

Ganed a magwyd Loren yng Nghasnewydd, ac mae hi wedi ystyried Cymru’n gartref erioed.
Roedd tyfu i fyny yn Ddu ac yn Gymraes yn golygu gweld harddwch y wlad yn ogystal â’i heriau.

Mae’r profiadau hynny wedi siapio ei hangerdd dros greu llefydd lle mae pobl ifanc yn teimlo’n ddiogel, yn cael eu clywed ac yn cael eu gwerthfawrogi.

Ble bynnag mae hi'n teithio, mae dod yn ôl i Gymru yn ei hatgoffa mai dyma yw cartref.

PIONEER OF WALES



## CYFRANIAD

Cydsefydlodd Loren Urban Circle ac aeth ymlaen i fod yn Brif Weithredwraig, gan ei dyfu o waith ieuenctid i fod yn un o brif sefydliadau creadigol cymunedol Cymru.

Am fwy na dau ddegawd, mae hi wedi helpu pobl ifanc i drefnu, perfformio ac arwain drwy gelfyddydau, addysg ac ymgyrchu.

Mae ei gwaith wedi cynnwys prosiectau ymchwil cymdeithasol, rhaglenni gweithgarwch/addysg ieuenctid a gŵyl reggae ryngwladol gyntaf Cymru.

## CRYFDERAU A LLAWENYDD

Arweinydd cymunedol penderfynol sy’n credu y dylid gwrando ar bobl ifanc a’u trystio i arwain. Mae hi’n cael llawenydd o natur, cerddoriaeth a gweld pobl ifanc yn tyfu mewn hyder.

“Mae’n rhaid i chi wneud amser, treulio amser, gwrando’n weithredol a rhoi amser i mewn.”